

EDWARDS, EDWARD (1741 - 1820), clericwr

Enw: Edward Edwards
Dyddiad geni: 1741
Dyddiad marw: 1820
Rhiant: Samuel Edwards
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clericwr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Hanes a Diwylliant; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Thomas Isfryn Jones

mab i Samuel Edwards o'r yr Wyddgrug. Ymaelododd yng Ngholeg All Souls, Rhydychen, yn Hydref 1758, 'yn 17 oed,' a graddiodd yn 1762 - rhoddir M.A. ar ôl ei enw yn y llyfrau, ond ni nodir Foster mo hynny. Eisoes cyn graddio yr oedd yn guraid (21 Rhagfyr 1760) yn Wrecsam; penodwyd ef gyda hynny'n ficer Cilcain yn 1777. O 1782 hyd ei farwolaeth yr oedd yn ficer Llanarmon yn lâl, gan barhau'n guraid yn Wrecsam - priododd â gweddw o'r dref. Bu farw 7 Awst 1820. Yn 1801 dug allan argraffiad dwy-gyfrol helaethedig o lyfr **Browne Willis** ar esgobaeth Llanelwy.

Awdur

Thomas Isfryn Jones

Ffynonellau

Foster, *Alumni Oxonienses: the members of the University of Oxford*
H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), ii, 85, 371

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 41766825

Wikidata: Q20732935

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Prifannu

Arddull APA

x

Jones, T. I., (1953). EDWARDS, EDWARD (1741 - 1820), clericwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EDWA-EDW-1741>

Prifannu

Preifatrwydd a Chwci
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government